# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon**

**Resicare Ltd**
**Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon**
**Ffordd Caernarfon**
**Y Felinheli**
**LL56 4NX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Healthcare Management Solutions |
| Lleoedd cofrestredig | 57 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Tachwedd 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yng nghartref Cerrig Yr Afon ac roeddent yn canmol yr holl staff sy'n gweithio yno.

Mae'r gwasanaeth yn nwylo'r gweinyddwyr ar hyn o bryd, ac mae cwmni arbenigol wedi cael ei benodi i reoli'r gwasanaeth hyd nes y gellir dod o hyd i brynwr parhaol.

Cafodd gwelliannau o ran y gwasanaeth a ddarperir eu nodi yn ystod yr arolygiad diwethaf, ac yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y gwelliannau hyn wedi cael eu cynnal a'u bod yn parhau i gael eu datblygu.

Gwrandewir ar y bobl a chânt eu cefnogi i dreulio eu hamser fel y mynnant. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n diwallu'r anghenion a nodwyd ar eu cyfer. Mae digon o staff wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth ac mae prosesau recriwtio da ar waith i sicrhau bod y staff yn ddiogel ac yn addas i weithio gydag oedolion sy'n wynebu risg.

Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi'n dda gan reolwr rhanbarthol a'r Unigolyn Cyfrifol, sy'n cydweithio i sicrhau eu bod yn goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir yn dda. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgymryd â'i rôl yn unol â gofynion y Rheoliadau.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gofynnir eu barn, gwrandewir ar y farn honno ac ymatebir iddi. Gwelsom fod cyfarfodydd preswylwyr yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod bwrdd *'dywedoch chi, gwnaethom ni'* yn cael ei ddefnyddio sy'n dangos awgrymiadau a wnaed a'r hyn y mae'r darparwr wedi'i wneud i'w rhoi ar waith. Gall y bobl ddewis pryd i godi a mynd i'r gwely, ble i dreulio eu hamser, pa weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt a beth yr hoffent ei fwyta a'i yfed. Gwnaethom arsylwi ar y profiad amser cinio gan nodi fod y bobl yn cael cymorth i eistedd wrth y bwrdd bwyta neu i aros yn y lolfa neu yn eu hystafelloedd os byddant yn dewis gwneud hynny. Mae'r staff yn cymryd amser i helpu'r bobl i fwyta eu prydau, gan sgwrsio a'u hannog yn garedig. Roedd cerddoriaeth yn y cefndir a oedd yn creu awyrgylch pleserus. Gwelsom fod y staff yn rhoi gwybod i'r nyrs os oedd ganddynt bryderon am unigolyn, a oedd yn mynd ati i helpu'r unigolyn hwnnw mewn modd amserol. Mae'r prydau yn edrych yn flasus a dywedodd y bobl wrthym fod y bwyd yn dda iawn. Mae'r staff arlwyo yn bodloni llawer o ofynion deietegol gwahanol yn unol â chanllawiau gan ddeietegyddion a gweithwyr lleferydd ac iaith proffesiynol.

Mae'r bobl yn cael cymorth i sicrhau eu llesiant corfforol a meddyliol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y rheolwr yn gofyn am gyngor meddygol ac yn gwneud atgyfeiriadau er mwyn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i'r bobl pan gaiff unrhyw bryderon iechyd eu nodi. Caiff newidiadau i anghenion gofal eu diweddaru yn y cynlluniau cymorth. Ceir cyfarfod trosglwyddo dyddiol manwl yn ogystal â chyfarfod dyddiol, sy'n sicrhau y caiff negeseuon allweddol a chamau gweithredu eu rhannu â'r tîm ac yr ymdrinnir â nhw. Caiff anghenion iechyd y bobl eu diwallu gan y nyrsys cofrestredig yn y gwasanaeth neu gan y tîm nyrsys ardal cymunedol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael adolygiadau â'u meddyg teulu a dywedodd y rheolwr wrthym fod y feddygfa leol wrthi'n adolygu pob un o breswylwyr y gwasanaeth ar hyn o bryd, er mwyn gwneud yn siŵr bod eu meddyginiaethau yn briodol ar gyfer eu hanghenion. Yn ogystal, mae'r staff yn sicrhau y caiff anghenion gofal personol y bobl eu diwallu ac mae gwasanaethau trin gwallt a phodiatreg ar gael iddynt er mwyn gwella eu llesiant cyffredinol.

Caiff y bobl eu cefnogi i wneud pethau sy'n bwysig iddynt a chânt gynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a gweithgareddau un i un. Gwelsom y bobl yn cymryd rhan mewn ymarferion cadair lle roedd y staff yn eu hannog ac yn eu cymell. Gall ymwelwyr gymryd rhan hefyd. Dywedodd un unigolyn, *"activity the other day was amazing, everyone laughing and cheering,"* a dywedodd un arall wrthym fod anifeiliaid yn ymweld a'i bod yn gallu cael cinio gyda'i gŵr. Gwnaethom siarad ag aelodau o deuluoedd a ffrindiau a oedd yn ymweld â'u hanwyliaid a rhoddodd pob un ohonynt adborth cadarnhaol am y gwasanaeth. Roedd y gweithgareddau eraill a welsom yn cynnwys trafodaeth/hel atgofion un i un, lliwio, darllen, a gwylio'r teledu neu wrando ar gerddoriaeth. Mae seddi arbenigol ar gael i'r bobl er mwyn iddynt allu treulio amser yn eistedd yn yr ardaloedd cymunedol. Dywedwyd wrthym am weithgareddau eraill sy'n cael eu cynnal yn y gwasanaeth, gan gynnwys 'teithiau o amgylch y byd' lle rhoddir tocynnau a phasbortau i'r bobl er mwyn

iddynt allu profi diwylliant, hanes a bwyd gwahanol wledydd am y dydd. Mae ffotograffau i'w gweld o amgylch y gwasanaeth o'r bobl yn cael hwyl ac yn dathlu digwyddiadau arbennig.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau ar waith i helpu unigolion i roi gwybod am unrhyw bryderon. Mae'r polisïau hyn yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Mae'r rheolwr yn cofnodi unrhyw bryderon diogelu ac yn rhoi gwybod yn briodol i'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd a'r Rheoleiddiwr am y pryderon hynny. Caiff digwyddiadau, damweiniau, a phryderon diogelu eu cofnodi a'u hadolygu fel rhan o'r broses archwilio ansawdd misol er mwyn sicrhau y caiff pob un o'r camau gweithredu eu cymryd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n unol â'u hanghenion gofal a'u dymuniadau unigol. Mae hyn oherwydd bod y darparwr yn cynnal asesiadau cychwynnol gyda'r bobl i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu eu hanghenion. Gwelsom fod y cofnodion gofal yn fanwl ac yn gyfredol, gan ddarparu gwybodaeth i'r staff gofal am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i gefnogi'r bobl yn ddiogel ac mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys dogfen *'Dyma Fi'* sy'n cynnwys gwybodaeth am hanes bywyd y bobl, eu hoff bethau, eu cas bethau, eu trefn o ddydd i ddydd, dynameg y teulu a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Gwelsom fod y cynlluniau gofal yn cael eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau sydd wedi digwydd, a bod cynlluniau pellach yn cael eu rhoi ar waith pan fydd anghenion gofal ychwanegol yn codi. Caiff y cofnodion gofal eu hadolygu bob mis, ynghyd ag agweddau perthnasol ar waith monitro fel gofalu am friwiau pwyso, pwysau, deiet, a maeth. Mae'r darparwr yn defnyddio cofnodion gan y bwrdd iechyd sy'n cefnogi trefniadau manwl ar gyfer cynllunio, adolygu a monitro llesiant y bobl.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n dangos urddas a pharch. Gwelsom ryngweithio cynnes a gofalgar rhwng yr unigolion a'r staff sy'n eu cefnogi, a hynny nid yn unig gan y nyrsys a'r staff gofal, ond gan y timau cynnal a chadw, arlwyo, gweithgareddau, cadw tŷ, a gweinyddol hefyd. Roedd y bobl yn canmol y staff sy'n eu cefnogi. Dywedodd un unigolyn wrthym, *"Staff are magic,"* a dywedodd un arall, *"I am made to feel part of the home."* Gwelsom fod y bobl yn cael eu cynnwys yn y gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, drwy eu hannog i arddio, cwblhau tasgau cadw tŷ bach a chynnal cyfweliadau. Wrth ymgymryd ag agweddau ar eu gwaith, roedd aelodau o'r staff yn gwneud hynny ochr yn ochr â'r bobl, gan esbonio beth roeddent yn ei wneud a'u cynnwys yn y dasg. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod aelodau o'r staff gofal bob amser yn bresennol ym mhob ardal gymunedol, felly nad oes yn rhaid i'r bobl fynd i chwilio am gymorth. Mae clychau galw a diodydd o fewn cyrraedd i'r bobl yn eu hystafelloedd a gwelsom fod y staff gofal yn mynd i ystafelloedd y bobl yn rheolaidd i ddweud helo a'u hannog i gael diod. Gwelsom fod y clychau galw yn cael eu hateb yn ddi-oed.

Caiff meddyginiaethau eu rheoli'n ddiogel yn y gwasanaeth. Roedd archwiliad meddyginiaethau diweddar gan y bwrdd iechyd yn gadarnhaol, a gwelsom arferion da ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r cofnodion meddyginiaeth yn fanwl ac yn cael eu cwblhau'n llawn. Mae prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau 'yn ôl yr angen' (PRN), eli argroenol a meddyginiaethau rheoli poen yn cael eu rhoi a'u cofnodi'n briodol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n ddiogel ac yn hybu annibyniaeth. Mae'r gwasanaeth yn ddiogel ac mae'n rhaid i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd a gadael, ond gall y bobl symud o gwmpas y cartref yn ddi-gyfyngiad. Mae tîm cynnal a chadw yn y gwasanaeth sy'n ymgymryd â gwaith cynnal a chadw cyffredinol. Cynhelir archwiliadau o'r amgylchedd, a gweithredir arnynt. Gan fod y gwasanaeth yn nwylo'r gweinyddwyr, nid oes llawer o fuddsoddi yn cael ei wneud yn y gwasanaeth ar hyn o bryd, ond gwelsom fod gwaith hanfodol mewn perthynas â iechyd a diogelwch wedi'i wneud a bod cyfarpar hanfodol wedi'i gaffael. Nododd y rheolwr fod angen uwchraddio'r bymperi ar reiliau gwelyau a chymerwyd camau priodol. Mae rhai o'r ystafelloedd gwely wedi cael eu haddurno a gosodwyd lloriau newydd mewn mannau. Er bod angen gwneud rhywfaint o waith ailaddurno cosmetig yn y gwasanaeth, mae'n ddiogel ac yn gynnes. Mae'r tîm cadw tŷ yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod y bobl yn byw mewn cartref glân chroesawgar. Gwelsom fod pob rhan o'r cartref yn lân iawn ac nad oedd unrhyw arogleuon drwg. Caiff ystafelloedd gwely'r bobl eu tacluso yn y bore yn barod ar eu cyfer yn hwyrach yn y dydd.

Caiff mesurau atal a rheoli heintiau eu rheoli'n briodol yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant yn y maes hwn a gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael, bod y staff yn ei wisgo a bod y gwasanaeth yn ei waredu fel y bo'n briodol. Mae'r ardaloedd a allai beri risg i'r bobl fel y gegin, yr ystafell golchi dillad, ac ardaloedd lle y caiff cynhyrchion glanhau eu storio yn cael eu cloi. Gwelsom weithdrefnau trin bwyd da, a chafodd y gwasanaeth ei arolygu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ym mis Hydref 2023 a roddodd sgôr lefel 5 iddo, sy'n dangos safon uchel o lendid bwyd, hylendid a rheolaeth.

Gall y bobl ddewis treulio amser yn yr ardaloedd cymunedol sy'n cynnig amrywiaeth o seddi i ddiwallu anghenion y bobl. Mae eraill yn dewis treulio amser yn eu hystafelloedd a oedd yn lân, yn cynnwys digon o le ac wedi'u personoli â lluniau, dodrefn meddal, ac eitemau personol. Lle bo angen cyfarpar arbenigol ar y bobl i gefnogi eu llesiant, mae'r cyfarpar hwnnw mewn cyflwr da ac yn cael ei wasanaethu yn ôl yr angen. Mae'r darparwr wedi prynu gwelyau proffilio newydd yn lle rhai o'r hen welyau, lle roedd angen. Mae'r rheolwr a'r swyddog cynnal a chadw yn archwilio'r ystafelloedd gwely a'r cyfarpar er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr da. Gwelsom fod ffurflenni monitro yn cael eu defnyddio a'u bod yn cael eu cwblhau bob dydd er mwyn sicrhau bod matresi llif aer ac eitemau eraill o gyfarpar lleddfu pwysau yn gweithio ac ar y gosodiadau cywir ar gyfer yr unigolyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n cael ei reoli'n dda gan dîm ymroddgar a phrofiadol. Mae'r gweinyddwyr wedi penodi'r darparwr i reoli'r gwasanaeth. Nododd y bobl, eu teuluoedd a staff y gwasanaeth fod y gwasanaeth wedi gwella ers i'r rheolwr gael ei benodi. Dywedodd y staff wrthym fod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth gan fod unigolion yn deall eu rolau penodol ac yn gweithio fel tîm i gefnogi'r bobl sy'n byw yno. Mae prosesau ar waith i reoli ansawdd y gofal yn y gwasanaeth drwy archwiliadau o feysydd penodol ac yn ehangach drwy archwiliad ansawdd misol. Mae'r archwiliad ansawdd misol yn cynnig trosolwg o'r holl feysydd o'r gwasanaeth a ddarperir, gan helpu'r darparwr i nodi patrymau, tueddiadau a meysydd i fynd i'r afael â nhw. Gwelsom fod y camau gweithredu o'r archwiliadau hyn yn cael eu hadolygu, er mwyn cofnodi cynnydd a sicrhau cydymffurfiaeth. Mae dogfennau ar gael yn y gwasanaeth i gefnogi arferion da ac i roi gwybod i'r bobl beth y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae'r dogfennau ar gael yn ddwyieithog.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sydd wedi'u recriwtio'n ddiogel, eu hyfforddi'n dda ac sy'n cael eu goruchwylio'n briodol. Gwnaethom edrych ar y cofnodion recriwtio yn y gwasanaeth a gwelsom fod gwiriadau cyn cyflogi priodol yn cael eu cynnal cyn i unigolyn ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae gan y darparwr broses sefydlu gadarn ar waith sy'n sicrhau y caiff modiwlau hyfforddiant allweddol eu cwblhau cyn i'r staff ddechrau eu shifftiau. Dywedodd y staff wrthym fod y broses sefydlu yn dda a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda drwy gydol eu cyfnod prawf. Gwnaethom edrych ar gofnodion goruchwylio pob aelod o staff yn y gwasanaeth a gwelsom eu bod wedi cael arfarniad blynyddol o'u gwaith a'u bod yn cyfarfod â'r rheolwr yn rheolaidd i gael sesiwn goruchwylio un i un. Mae hyn yn cefnogi'r staff yn eu rolau ac yn annog arferion da. Gwnaethom edrych ar y cofnodion hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r staff a gwelsom eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol sy'n berthnasol i'w rôl. Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi newid i lwyfan hyfforddiant newydd ac wedi nodi bod angen hyfforddiant gloywi ar rai o'r staff. Mae'r darparwr yn mynd i'r afael â hyn a gwelsom yn yr archwiliadau ansawdd fod camau ar waith i helpu'r staff i gwblhau'r hyfforddiant gloywi. Caiff y staff nyrsio eu cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant clinigol a gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), gan fod y darparwr yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd lleol a'r awdurdod lleol i adolygu hyfforddiant ac i drefnu cyrsiau i sicrhau bod sgiliau'r staff yn gyfredol a'u bod yn diwallu anghenion y bobl yn y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn nwylo'r gweinyddwyr ar hyn o bryd, ond dywedodd y rheolwr wrthym pan fo angen gwneud gwaith hanfodol neu brynu cyfarpar newydd, fod y cwmni gweinyddu yn bodloni'r gofynion hyn.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y newidiadau cadarnhaol a roddwyd ar waith yn yr arolygiad diwethaf wedi cael eu cynnal a bod y rheolwr yn dangos ymrwymiad i barhau â'r gwelliannau hyn. Yn ddieithriad, roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw neu y cawsom adborth ganddynt yn canmol y gwasanaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r tîm rheoli a'r staff sy'n gweithio yno.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/10/2024